Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 18 Rhagfyr 2023 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Pennaeth Gwasanaeth Tai a Chymunedau |
| **Awdur yr Adroddiad** | Pennaeth Gwasanaethau Tai a Chymunedau |
| **Teitl** | Cynnig Arbedion Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Toriadau i'r gwasanaeth Llyfrgelloedd / Siopau Un Alwad ar gyfer 2024-25

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Nodi'r potensial ar gyfer arbedion yn y gwasanaeth Llyfrgelloedd / Siopau Un Alwad.

2.2. Nodi effaith bosibl yr arbedion.

2.3. Amlygu unrhyw ystyriaethau penodol i'r Cabinet a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol er mwyn llywio trafodaethau i'r dyfodol.

2.4. Mae angen penderfynu p'un a ddylid gwneud y toriadau a argymhellir i gyllideb y gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn nodi'r adroddiad ac yn cymeradwyo'r cynnig i leihau oriau agor Llyfrgelloedd / Siopau Un Alwad o oddeutu 40%, ynghyd ag arbedion cysylltiedig mewn rhannu eraill o'r gwasanaeth, i roi arbediad disgwyliedig o £360,000.

3.2. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# 4. Manylion yr adroddiad

## Cefndir

4.1. Mae’r Cyngor yn wynebu her ariannol ddigynsail, a bydd gofyn i bob gwasanaeth ddarparu arbedion sylweddol i fodloni’r her honno.

4.2. Cyflwynwyd y cynnig i leihau oriau agor y gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad fel rhan o’r broses gorfforaethol i geisio nodi cynigion arbedion. Mae’n un o blith nifer o gynigion arbedion sylweddol eraill sydd wedi cael eu rhannu gydag Aelodau. Cynhaliwyd sesiwn friffio aelodau ar y cynnig Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad ar 26 Hydref.

4.3. Er y cydnabuwyd nad ‘dim ond’ llefydd i fenthyca llyfrau yw Llyfrgelloedd, dylid nodi amrywiaeth y gweithgareddau mewn Llyfrgelloedd. Yr ystadegau allweddol ar gyfer 2022-23 yw:

- Mae’r incwm a ymdriniwyd ag ef gan Lyfrgelloedd/Siopau Un Alwad (heblaw am SUA Rhuthun yn **£845,000.** Roedd y rhan fwyaf o hwn drwy beiriannau arian parod (mewn 5 o 8 llyfrgell - mae’r staff yn cyfri’r arian ar ddiwedd y dydd ac yn aml yn gorfod helpu cwsmeriaid i ddefnyddio’r ciosg), ond cafodd £370,000 ei gasglu gan staff (am nad oedd aelodau’r cyhoedd yn ddigon hyderus i ddefnyddio’r peiriannau heb gymorth, neu am nad oes peiriant yn y lleoliad hwnnw).
- Cynhaliodd Llyfrgelloedd dros **950** o weithgareddau partner drwy gydol 22/23. Yn eu plith roedd digwyddiadau fel Pwyntiau Siarad, sesiynau galw heibio CAD, Sir Ddinbych yn Gweithio a gwasanaethau eraill CSDd yn cyfarfod â chwsmeriaid.
- Cyflwynodd llyfrgelloedd dros **17,000** o ymholiadau C360 ar ran aelodau’r cyhoedd drwy gydol y flwyddyn.
- Cynhaliodd llyfrgelloedd bron i **650** o ddigwyddiadau Llyfrgell (heb gynnwys Dechrau Da), gyda bron i 10,000 yn bresennol ynddynt.
- Mae **51%** o’r boblogaeth yn Ddefnyddwyr Llyfrgell cofrestredig.
- Yn ystod y flwyddyn, bu **20,646** o sesiynau TG cyhoeddus (h.y aelodau’r cyhoedd yn defnyddio cyfrifiaduron yn y Llyfrgell, ac yn aml roedd arnynt angen cymorth y staff i fynd ar-lein)

- Mae 54 aelod o staff yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd (32.18 cyfwerth â llawn amser). Mae'r grŵp o staff yn ffyddlon iawn: mae 15 aelod o staff wedi bod yn gweithio i'r gwasanaeth ers dros 20 mlynedd; mae 3 wedi gweithio i Sir Ddinbych ers dros 30 mlynedd.

**Model Arfaethedig**

4.4. Roedd dau opsiwn ar gyfer gwneud arbedion sylweddol yn y gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad: naill ai cau llyfrgelloedd neu leihau'r oriau agor. Trafododd y Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet yr opsiynau hyn a daethpwyd i gytundeb y dylid ceisio osgoi cau llyfrgelloedd yn llwyr.

4.5. Ystyrir bod y cynnig i leihau oriau agor y llyfrgelloedd yn ffordd well a thecach o ddarparu arbedion sylweddol, yn hytrach na chau llyfrgelloedd unigol, er enghraifft, trwy gael un Llyfrgell/Siop Un Alwad naill ai yn y Rhyl neu Brestatyn; Corwen neu Langollen; Rhuthun neu Ddinbych, Llanelwy neu Ruddlan. Bydd yr opsiwn hwn yn sicrhau fod bob llyfrgell yn Sir Ddinbych yn parhau ar agor, hyd yn oed os yw'r oriau agor yn llai, ac mae'n bosibl y byddant yn parhau i fod ar gael i'w defnyddio gan gymunedau y tu allan i oriau agor. Mae hefyd yn golygu y bydd yn haws ailgyflwyno'r oriau agor blaenorol yn y dyfodol os bydd y sefyllfa ariannol yn gwella, neu os gellir dod o hyd i gyllid amgen.

4.6. Lansiwyd ymgynghoriad gyda staff a'r cyhoedd i geisio adborth ar y cynnig i leihau oriau agor Llyfrgelloedd / Siopau Un Alwad a gwneud toriadau cysylltiedig i swyddogaethau ar draws y gwasanaeth.

4.7. Cafwyd ymateb cryf iawn i'r ymgynghoriad: derbyniwyd dros **4,590** o ymatebion gan y cyhoedd a budd-ddeiliaid.

4.8. Gan gydnabod y byddai'n rhaid nodi arbedion, gofynnodd y Cabinet a fyddai modd diwygio'r model mewn ymateb i adborth gan staff, cwsmeriaid a budd-ddeiliaid: mae'r gostyngiad a gynigir i'r oriau agor bellach ychydig yn llai na 40%. Ynghyd ag arbedion cysylltiedig mewn adrannau eraill o'r gwasanaeth, y gostyngiad cyllidebol a gynigir yw **£359,328** sy'n cyfateb i **21%** o gyllideb y gwasanaeth (ffigurau 23/24).

4.9. Ceir crynodeb o'r model isod, ac mae rhagor o fanylion ar gael yn Atodiad 2:

| | Model cyfredol | Model a fu'n destun | Model diwygiedig (gostwng yr oriau |
|---|---|---|---|

| | | ymgynghoriad (gostwng yr oriau agor o 50% + arbedion cysylltiedig) | agor o 40% + arbedion cysylltiedig |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr oriau agor | 251.5 | 129 | 159 |
| Cyfanswm oriau staff rheng flaen | 742.7 | 420 | 489 |
| Cyfanswm y swyddi rheng flaen | 40 | 24 | 30 |
| Cyfanswm y swyddi rheng flaen cyfwerth â llawn amser | 20 | 11.3 | 10.91 |
| | | | |
| Cyfanswm y swyddi | 55 | 37 | 44 |
| Cyfanswm y swyddi cyfwerth â llawn amser | 31.12 | 19.78 | 20.31 |
| | | | |
| Cyfanswm yr arbedion (ffigurau 23/24) | | £450,540 | £359,328 |
| % y gyllideb gyfan (£1.659m) | | 27% | 22% |

| **Arbedion (ffigurau 23/24)** | **£** |
|---|---|
| Swyddi rheng flaen | 223,585 |
| Gostyngiadau Rheolwyr a Goruchwylwyr | 55,316 |
| Dechrau Da (yn ystod y tymor yn unig) | 4,305 |
| Gwasanaeth y Llyfrgell Gartref (gostyngiad o 25%) | 5,890 |
| Gwasanaeth Cyflenwi (gostyngiad o 30%) | 5,008 |
| Adnoddau/Cronfa Lyfrau (gostyngiad o 20%) | 23,360 |
| Glanhau (gostyngiad o 20%) | 21,522 |
| Cyflenwadau (gostyngiad o 30%) | 2,342 |
| Gostyngiadau Gwasanaeth Wrth Gefn | 18,000 |
| CYFANSWM | **359,328** |

4.10. Mae'r model hwn hefyd yn ymateb i adborth yr ymgynghoriad, er enghraifft, cynyddu cyfleoedd i gael mynediad at y gwasanaeth y tu allan i ddyddiau gwaith a'r ysgol lle bynnag y bo modd, llai o hanner dyddiau, a dyddiau agor diwygiedig.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae Llyfrgelloedd yn rhan bwysig o ddarparu ein blaenoriaethau corfforaethol, ac yn offeryn allweddol i gyflawni mynediad a chyfleoedd cyfartal, gan helpu'r Cyngor a'r partneriaid i ddarparu eu rhaglen gydraddoldeb.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'n anodd rhagweld costau diswyddo yn sgil cymhlethdod y newidiadau. Gallai'r costau diswyddo fod yn sero pe bai bob aelod o staff yn cael eu hail-leoli'n llwyddiannus, ond, yn seiliedig ar y diswyddiadau posibl drytaf, fe allant fod yn hyd at £235,500. Yn amlwg, gwneir pob ymdrech i leihau'r angen ar gyfer diswyddiadau a sicrhau cyn lleied o gostau cysylltiedig â phosibl. Bydd angen cefnogaeth Cyllid ac AD i ddarparu unrhyw newidiadau.

6.2. Mae cynllun cyfathrebu wedi cael ei ddatblygu a bydd yn rhaid i'r gefnogaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu sydd wedi bod yn hanfodol hyd yma gefnogi gweithrediad penderfyniad y Cabinet er mwyn sicrhau fod cwsmeriaid a budd-ddeiliaid yn ymwybodol o'r newidiadau a'n bod yn parhau i wneud y defnydd mwyaf o Lyfrgelloedd / Siopau Un Alwad.

6.3. Gallai lleihau'r gwasanaeth Llyfrgelloedd / Siopau Un Alwad effeithio ar rai gwasanaethau eraill. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid cael trafodaethau manwl gyda gwasanaethau i liniaru unrhyw effaith.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Yr oedd y sgôr ar gyfer cynaliadwyedd y dull yn: 2 seren allan o 4. Gwir sgôr: 21/36

7.2. Dros y chwe blynedd diwethaf, mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd / Siopau Un Alwad CSDd wedi'i ddatblygu i wneud cyfraniad mwy fyth at Les Cenedlaethau'r Dyfodol, felly mae lleihau'r gwasanaeth yn mynd i arwain at effaith negyddol ar y nodau. Bydd angen ystyried lliniaru'r effeithiau negyddol drwy ymgysylltu â staff, defnyddwyr y Llyfrgelloedd / Siopau Un Alwad a phartneriaid.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Gweithdy'r Cyngor - 26 Hydref.

8.2. Ymgynghoriad Cyhoeddus 2-30 Hydref. Dros 4,500 o ymatebion: yr ymgynghoriad mwyaf llwyddiannus o bell ffordd yn y blynyddoedd diwethaf. Ceir dadansoddiad o'r ymatebion yn Atodiad 3, ond mae'r penawdau allweddol yn cynnwys:

8.2.1. Roedd 90% o’r ymatebwyr naill ai’n anghytuno neu’n anghytuno’n gryf y byddai modd iddynt ymweld â’u Llyfrgell / Siop Un Alwad agosaf neu agosaf nesaf pan fo angen.

8.2.2. Ychwanegodd bron i 3,400 o’r ymatebwyr sylwadau am y cynigion: roedd 96% o’r rhain yn sylwadau negyddol am y newidiadau arfaethedig.

8.2.3. Mae’r themâu allweddol yn cynnwys: Effaith ar Gyfleusterau Llyfrgelloedd (Llyfrau/Cyfrifiaduron/Mynediad i’r We/Argraffu); Effaith ar y Canolbwynt Cymunedol a Chymdeithasol/Sesiynau Sgwrsio; Diffyg mynediad yn sgil yr oriau (y tu allan i’r ysgol/gwaith); materion yn ymwneud â Chostau Byw; Effaith ar fynediad at addysg/hyfforddiant; Effaith ar fynediad at gymorth gyda gwybodaeth a Gwasanaethau’r Cyngor; materion yn ymwneud â chludiant a chyrraedd llyfrgelloedd eraill; Effaith ar fynediad at Dechrau Da/Amser Rhigwm; Effaith ar bobl ddiamddiffyn yn gyffredinol, ac ati. Amlinellir ymateb y Cyngor i’r themâu hyn yn Atodiad 4

8.3. Cynhaliwyd yr Ymgynghoriad Staff rhwng 2 a 30 Hydref. Roedd sylwadau’r staff yn adlewyrchu’r pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn bennaf. Gweler ymateb Unsain yn Atodiad 5 ar ran ei aelodau: roeddent yn bennaf o’r un farn â’r ymatebwyr eraill. Mae ymateb i staff wedi cael ei gyhoeddi i ymateb i’r sylwadau a rhannu’r wybodaeth ddiweddaraf gyda staff ar y camau nesaf.

8.4. Mewn ymateb i geisiadau’r Cabinet, ymgysylltwyd â Staff wrth adolygu’r model a fu’n destun ymgynghoriad a chymerodd Unsain ran yn y cyfarfod i drafod hyn.

8.5. Ymgynghorwyd â budd-ddeiliaid allweddol, cyllidwyr a rheoleiddwyr ac mae rhai o’r ymatebion wedi cael eu cynnwys yn y pecyn (Atodiad 6a-i)

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae’r Cyngor yn wynebu toriadau ariannol sylweddol mewn termau real dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ynghyd â chynnydd mewn costau a galw, yn arbennig mewn gwasanaethau megis gwasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant. Golyga hyn bod angen i bob gwasanaeth wneud arbedion a fydd yn arwain at doriadau i wasanaethau. Er bod gwasanaethau wedi nodi rhai cynigion arbedion, mae’r bwlch yn parhau i fod yn sylweddol ar gyfer 2024/25, hyd yn oed ar ôl cytuno a chyflawni bob un o’r cynigion hynny. Mae’r cynnig llyfrgelloedd yn un o’r cynigion hyn. Er yn

amlwg bod ystod eang o ffactorau i'w hystyried ar gyfer bob cynnig, mae'n bwysig ein bod yn ystyried y cyd-destun ariannol ehangach ar gyfer y 3 mlynedd nesaf wrth wneud penderfyniadau.  Bydd unrhyw arbedion nad ydynt yn cael eu cyflawni nawr naill ai'n oedi toriadau'n hwyrach i lawr y lein neu'n trosglwyddo'r toriadau i wasanaethau gwerthfawr eraill.

## 10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

10.1. Risg o Adolygiad Barnwrol.  O ystyried y cynigir i bob llyfrgell aros ar agor, ystyrir bod hyn yn annhebygol.

10.2. Risg o Dribiwnlys Cyflogaeth:  Mae Adran y Gyfraith ac AD yn sicrhau fod polisïau'n cael eu dilyn.   Ymgynghorwyd â phob undeb ac mae un ohonynt wedi bod ynghlwm ag adolygu'r model a fu'n destun ymgynghoriad.

10.3. Mae risg y bydd toriadau'n cael effaith ar allu CSDd i barhau i fodloni Safonau Llyfrgelloedd LlC (12 o hawliau craidd ac 16 dangosydd ansawdd: Adroddiad llyfrgelloedd Cymru: 2020 i 2021 llyw.cymru).  Mae'r gwasanaeth fel yr amlinellwyd yn y papur wedi lliniaru'r risg hon a bydd yn parhau i gynllunio i'w lliniaru ymhellach yn y broses o ddylunio a darparu'r gwasanaeth.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

11.2. Caiff y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus eu hariannu a'u rhedeg neu eu comisiynu gan lywodraeth leol.  Mae'n ddyletswydd statudol ar awdurdodau llyfrgelloedd (cynghorau bwrdeistref unedol, sirol neu fetropolitan) dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 i 'ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon i bawb'  sy'n byw, gweithio neu'n astudio yn yr ardal (Adran 7).